

NPDA

Archwiliad Diabetes
Pediatrig Cenedlaethol

Adroddiad Rhieni a Gofalwyr 2019-2020

Cyhoeddwyd 2021

RCPCH Audits



HQIP

Healthcare Quality
Improvement Partnership

RCPCH

Royal College of
Paediatrics and Child Health

Leading the way in Children's Health

Diabetes

Cyflwr yw diabetes mellitus (diabetes) lle mae swm y glwcos yn eich corff yn rhy uchel am na all y corff ei ddefnyddio'n iawn.

Mae tua 30,000 o blant a phobl ifanc â diabetes yng Nghymru a Lloegr sy'n derbyn gofal gan glinig diabetes pediatrig. Sef rhyw 2 o bob 1000 o blant yn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae gan tua 95% Diabetes Math 1, a rhyw 5% diabetes Math 2 neu ffurfiau prin eraill o diabetes.

Ym mlwyddyn archwilio 2019-20, cafwyd mymryn dros 2,900 diagnosis newydd o diabetes Math 1, a 201 diagnosis newydd o diabetes Math 2 a dderbyniodd ofal mewn clinig diabetes pediatrig.

Ar [dudalen 27](#), fe welwch eirfa o eiriau a thermau allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ynghylch gofal diabetes, felly fe all fod o gymorth i chi bori trwy'r eirfa os dewch ar draws unrhyw beth yn yr adroddiad nad ydych yn gyfarwydd ag ef.

Trosolwg

Mae'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol (NPDA) yn cael ei gynnal yn flynyddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r clinig yr ydych chi'n ymweld ag ef yn cymryd rhan yn yr NPDA. Ystyr hyn yw eu bod yn anfon gwybodaeth i dîm yr NPDA am yr holl wiriadau iechyd am diabetes a wnaethant dros y flwyddyn a aeth heibio, a chanlyniadau'r gwiriadau hyn. Mae tîm yr NPDA yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu adroddiadau. Mae'r adroddiadau'n dangos sut y mae clinigau yn cymharu â'i gilydd mewn gwahanol feysydd gofal. Maent hefyd yn dangos lle mae modd gwneud gwelliannau cenedlaethol mewn gofal. Mae hyn yn golygu y gall timau diabetes weithio gyda'i gilydd i wneud unrhyw newidiadau fydd yn arwain at well gofal.

Yn 2019-20, anfonodd 166 o'r 173 clinig diabetes pediatrig yng Nghymru a Lloegr wybodaeth at yr NPDA. Golygodd heriau oherwydd pandemig COVID-19 na allodd pob clinig o'r 173 gymryd rhan. Darparwyd gwybodaeth am ryw 29,200 o blant a phobl ifanc dan 25 oed â diabetes. Mae'r llyfryn hwn wedi ei seilio ar y wybodaeth a dderbyniwyd ac y mae'n rhoi crynodeb i rieni a gofalwyr o'r canfyddiadau o flwyddyn archwilio 2019-20. Mae'n edrych i weld a oedd plant a phobl ifanc yn derbyn y gwiriadau iechyd cysylltiedig â diabetes, faint oedd wedi datblygu cymhlethdodau cysylltiedig â diabetes neu mewn mwy o berygl o'u datblygu, a faint oedd yn cyrraedd targedau glwcos gwaed.

Gwiriadau iechyd 2019-20 Y gofal y dylai eich plentyn dderbyn

Mae adroddiad blynyddol yr NPDA yn rhoi gwybodaeth am y gwiriadau iechyd allweddol y dylai eich plentyn dderbyn.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) yn argymhell sawl gwiriad iechyd y dylid eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn i blant a phobl ifanc â diabetes. Mae'r NPDA yn disgrifio saith o'r rhain fel y gwiriadau blynyddol 'allweddol' i blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 a Math 2 yn yr adroddiad.

Mae'r tablau ar y dudalen nesaf yn disgrifio'r saith gwiriad allweddol hwn am ddiabetes Math 1 a Math 2 ac yn dweud wrthyfch pryd y dylai eich plentyn eu derbyn.

Gwiriadau iechyd allweddol y dylai eich plentyn should receive

.....

Mae gan fy mhentyn diabetes Math 1

Gwiriad Iechyd	Pryd?
HbA1c Mesur yw hwn o lefelau glwcos gwaed cyfartalog dros y tri mis blaenorol	Adeg diagnosis, yna bob tri mis*
Taldra a phwysau, i weithio allan Indecs Mäs y Corff (BMI) Gwiriad am dwf iach yw hwn	Adeg diagnosis, yna bob tri mis*
Thyroid Gwiriad am thyroid iach yw hwn	Adeg diagnosis, yna'n flynyddol*
Pwysedd gwaed Gwiriad yw hwn am lefelau pwysedd gwaed iach	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*
Albwmyn yn yr wrin Gwiriad am arenau iach yw hwn	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*
Sgrinio llygaid (retinopat heg) Gwiriad yw hwn am bibelli gwaed iach yn y llygaid	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*
Archwilio traed Gwiriad am draed iach yw hwn	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*

*Gall eich clinig diabetes ddewis gwneud y gwiriad hwn yn amlach neu ddechrau sgrinio yn iau.

Gwiriadau iechyd allweddol y dylai eich plentyn should receive



Mae gan fy mhentyn diabetes Math 2	
Gwiriad Iechyd	Pryd?
HbA1c Mesur yw hwn o lefelau glwcos gwaed cyfartalog dros y tri mis blaenorol	Adeg diagnosis, yna bob tri mis*
Taldra a phwysau, i weithio allan Indecs Mäs y Corff (BMI) Gwiriad am dwf iach yw hwn	Adeg diagnosis, yna bob tri mis*
Colesterol Gwiriad yw hwn am lefelau colesterol yn y gwaed	Adeg diagnosis, yna'n flynyddol*
Pwysedd gwaed Gwiriad yw hwn am lefelau pwysedd gwaed iach	Adeg diagnosis, yna'n flynyddol*
Albwmyn yn yr wrin Gwiriad am arenau iach yw hwn	Adeg diagnosis, yna'n flynyddol*
Sgrinio llygaid (retinopatheg) Gwiriad yw hwn am bibelli gwaed iach yn y llygaid	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*
Archwilio traed Gwiriad am draed iach yw hwn	Yn 12 mlwydd oed, yna'n flynyddol*

***Gall eich clinig diabetes ddewis gwneud y gwiriad hwn yn amlach neu ddechrau sgrinio yn iau.**

Yn ychwanegol at y saith gwiriad iechyd allweddol, dylai eich clinig hefyd wneud y canlynol:

Adeg diagnosis:

- **Sgrinio am glefyd y thyroid a chlefyd coeliac** ymhen 90 diwrnod o'r diagnosis, oherwydd bod gan blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 risg uwch o'r cyflyrau awtolmiwn hyn .

Math 1

- **Darparu addysg cyfrif carbohydradau Lefel 3** - mae hyn yn caniatáu i gleifion a theuluoedd weithio allan gynnwys carbohydrad prydu, byrbrydu a diodydd, a chyfatebu hyn â gofynion inswlin. Dylai gychwyn o fewn 14 diwrnod o'r diagnosis.

Math 1

Yn y flwyddyn archwilio:

- **Cwblhau asesiad sgrinio seicolegol** gan y gall problemau megis pryder, iselder a bwyta di-drefn fod yn fwy cyffredin ymysg plant a phobl ifanc â diabetes

Math 1 a Math 2

- **Holi am smygu** er mwyn gallu cynnig cefnogaeth i leihau smygu neu roi'r gorau, os oes angen.

Math 1 a Math 2

- **Argymhell brechiad rhag y ffliw** oherwydd bod y risg o salwch difrifol o ganlyniad i'r ffliw yn uwch ymysg y sawl sydd â diabetes.

Math 1 a Math 2

- **Rhoi cyngor 'rheolau diwrnod salwch'** i ganiatau i deuluoedd hunan-reoli diabetes yn ystod mathau eraill o salwch fel peswch ac annwyd.

Math 1 a Math 2

- **Cynnig o leiaf un apwyntiad dietegol ychwanegol** gyda dietegydd cofrestredig.

Math 1 a Math 2

- **Cynnig hyfforddiant ar ddenfyddio stribedi prawf gwaed** cetonau Mae diffyg inswlin yn arwain at gynhyrchu cetonau. Gall cronlad cetonau yn y gwaed arwain at gyflwr difrifol o'r enw cetonasidosis diabetig (DKA). Mae plant a phobl ifanc â diabetes mewn perygl arbennig o DKA ar adegau pan fydd ganddynt salwch arall, ac fe allant fod angen defnyddio 'rheolau diwrnod salwch' i atal hyn rhag digwydd. Bydd 'rheolau diwrnod salwch' yn cynnwys gwybodaeth am brofi am cetonau.


Math 1

Cwblhau gwiriadau iechyd

Diabetes Math 1

Ymchwiliodd yr NPDA i weld faint o blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 a dderbyniodd eu saith gwiriad iechyd allweddol ([fel y'u disgrifir ar dudalen 5](#)).

Dangosir isod ganrannau'r plant a'r bobl ifanc â diabetes Math 1 yng Nghymru a Lloegr a dderbyniodd bob gwiriad iechyd allweddol ym mlwyddyn archwilio 2019-20, gyda'r canlyniadau o 2018-19 i gymharu :




Gwella wnaeth cyfraddau cwblhau'r holl wiriadau iechyd allweddol ac eithrio am sgrinio llygaid rhwng 2018-19 a 2019-20. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig er mwyn dod o hyd i unrhyw broblemau sy'n ymwneud â diabetes, fel bod modd cynnig cyngor a thriniaeth yn gynnar.

Holwch eich clinig diabetes am y gwiriadau iechyd allweddol hyn i'ch plentyn. Mae'n bwysig hefyd fod canlyniadau'r gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi gan eich tim diabetes a'u cyflwyno i'r NPDA fel y gellir gweld fod eich clinig wedi rhoi'r gofal sy'n cael ei argymhell.

Gwiriadau eraill ac apwyntiadau gydag arbenigwyr.


Thyroid a chlefyd coeliag

Cafodd tua pedwar o bob pump o blant a phobl ifanc a gafodd ddiagnosis newydd o diabetes Math 1 ym mlwyddyn archwilio 2019-20 eu sgrinio am thyroid a chlefyd coeliag o fewn 90 diwrnod o'r diagnosis. Mae'r cyfraddau cwblhau wedi aros dros 80% yn ystod y flwyddyn archwilio ddiwethaf.



Asesiad seicolegol a statws smygu

Dangosir isod ganrannau'r plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 a gafodd wiriadau seicolegol a smygu yn 2019-20 o gymharu â 2018-18. Bu cynnydd yng nghanran y plant a'r bobl ifanc y cofnodwyd eu statws smygu yn y flwyddyn archwilio. Arhosodd canrannau'r sawl a dderbyniodd asesiad seicolegol yn debyg.



Mae'r NPDA yn casglu gwybodaeth am wiriadau ychwanegol ac apwyntiadau gydag arbenigwyr ([gweler tudalen 7](#)). Mae'r tablau isod yn dangos canrannau'r plant a'r bobl ifanc â diabetes Math 1 a dderbyniodd y rhain. Mae'r rhan fwyaf wedi cynyddu ers y flwyddyn archwilio flaenorol.


	Addysg cyfrif carbohyd radau Lefel 3	Brechia d ffliw	'Rheolau diwrnod salwch'	Apwyntiad dietig ychwanegol a gynigiwyd	Hyfforddi ant profi am getonau gwaed
2019-20	83%	88%	89%	89%	92%
2018-19	76%	81%	84%	90%	88%

Cwblhau gwiriadau iechyd

Diabetes Math 2

Ymchwiliodd yr NPDA i weld faint o blant a phobl ifanc â diabetes Math 2 a dderbyniodd eu saith gwiriad iechyd allweddol (fel y'u disgrifir [ardudalen 6](#)).

Gwelir isod ganrannau'r plant a'r bobl ifanc â diabetes Math 2 yng Nghymru a Lloegr a dderbyniodd bob gwiriad iechyd allweddol yn y flwyddyn archwilio 2019-20, gyda'r canlyniadau o 2018-19 i gymharu.




Ni chafwyd gwelliant o ran cwblhau gwiriadau rhwng 2018-19 a 2019-20. Mae cyfraddau cwblhau gwiriadau iechyd allweddol mewn plant a phobl ifanc â diabetes Math 2 yn is na'r rhai â diabetes Math 1. Mae'r un mor bwysig i blant a phobl ifanc â diabetes Math 2 dderbyn yr holl wiriadau a argymhellir bob

blwyddyn â'r rhai â diabetes Math 1. Gall gwiriadau iechyd rheolaidd helpu i sicrhau bod unrhyw broblemau iechyd cysylltiedig â diabetes Math 2 yn cael eu dal yn gynnar a'u rheoli'n dda.

Gwiriadau eraill ac apwyntiadau gydag arbenigwyr

Asesiad seicolegol a statws smygu

Dangosir isod ganrannau'r plant a'r bobl ifanc â diabetes Math 2 a dderbyniodd wiriadau seicolegol a smygu yn 2019-20 o gymharu â 2018-19.



Am flwyddyn archwilio 2019-20, casglodd yr NPDA wybodaeth am y gwiriadau ychwanegol ac apwyntiadau gydag arbenigwyr ([gweler tudalen7](#)). Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r plant a'r bobl ifanc â diabetes Math 2 a dderbyniodd y rhain. Mae'r rhain yn dal yn debyg i rai'r flwyddyn archwilio flaenorol.

	Cyngor wedi'i roi am	'reolau diwrnod salwch'	Apwyntiad dietig ychwanegol a gynigiwyd
2019-20	68%	53%	80%
2018-19	69%	52%	80%

Cwblhau gwiriadau iechyd

Deall y canlyniadau

Er y bu rhai gwelliannau, nid yw pob plentyn a pherson ifanc â diabetes yn cael gwiriad bob blwyddyn am arwyddion rhybuddio am gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â diabetes ([gweler tudalennau 21-23](#)).

Beth fedra'i wneud i helpu?

- Holwch eich tîm diabetes am wiriadau iechyd eich plentyn fel rhan o asesiad blynyddol. Gall adnabod problemau yn gynnar leihau'r risg o gymhlethdodau yn nes ymlaen. Os bydd eich plentyn yn colli unrhyw wiriadau allweddol yn yr adolygiad blynyddol, siaradwch â'ch tîm diabetes am hyn yn yr apwyntiad nesaf.
- Mae pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn fwy anodd parhau ag apwyntiadau rheolaidd wyneb-yn-wyneb, ond mae'n bwysig bod y gwiriadau iechyd yn parhau. Trafodwch y dewisiadau am glinigau o bell a rhithiol gyda'ch tîm diabetes.

Pam bod rhai gwiriadau heb gael eu cwblhau neu'n cael eu colli?

Mae sawl rheswm pam nad yw gwiriadau iechyd yn wastad yn cael eu cwblhau. Er enghraifft:

- Rhieni'n methu dod â'u plentyn i bob apwyntiad clinig.
- Colli apwyntiadau adolygu blynyddol
- Methu dod i apwyntiadau sgrinio llygaid
- Ofni profion gwaed (mynnwch air â'ch clinig os ydych eisiau help gyda hyn)
- Diffyg adnoddau a staff mewn timau diabetes

Nid yw'r posibiladau hyn yn esgus dros beidio â chwblhau'r gwiriadau iechyd a argymhellir. Mae gwiriadau iechyd yn rhan o ganllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac y maent yn hanfodol er mwyn cadw plant a phobl ifanc â diabetes mewn iechyd da.

Sut y gall clinigau wneud yn siŵr fod pawb yn cael y gwiriadau a argymhellir?

Mae Ysbyty Castell Nedd Port Talbot yng Nghymru wedi cynnal cyfradd uchel o gwblhau gwiriadau iechyd dros y flwyddyn archwilio a aeth heibio! Fe gawsom air â'r tîm i ddod i wybod mwy.



.....

NPDA:

Beth mae eich clinig chi yn wneud i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc â diabetes yn derbyn eu saith gwiriad allweddol?

.....



.....

Ysbyty Castell Nedd Port Talbot:

- Rydym yn darparu addysg yn rheolaidd i deuluoedd, plant a phobl ifanc, i'w dysgu am bwysigrwydd gwiriadau iechyd blynyddol.
- Mae rhestrau clinigau yn cael eu gwirio mewn da bryd fel ein bod yn gwybod yn union pwy sydd i fod i gael adolygiad blynyddol.
- Rydym wedi gwella ein prosesau mewnol (pethau fel y ffordd yr ydym yn casglu samplau i'w profi a sut y byddwn yn cofnodi data) i helpu i sicrhau nad oes yr un gwiriad yn cael ei gollu.
- Rydym yn cyfarfod ac yn trafod ein gwasanaeth gyda chydweithwyr mewn ysbytai eraill yng Nghymru fel y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a rhannu syniadau da.

.....



Deicllanau -HbA1c

Mae a wnelo HbA1c â'ch lefdelau glwcos gwaed cyfartalog dros y dau neu dri mis cyn eu mesur. Mae'n rhoi mesur o reolaeth diabetes dros y dau neu dri mis cyn y prawf HbA1c ac y mae'n aml yn cael ei drafod yn ystod eich apwyntiad yn y clinig.

Mae lefel HbA1c uwchlaw 80 mmol/mol (9.5%) yn arwydd o lefelau glwcos gwaed uchel iawn, ac y mae'n cynyddu'r risg o ddatblygu cymhlethdodau cysylltiedig â diabetes(gweler tudalennau 21 - 23).

Argymhellir y dylai pob plentyn a pherson ifanc a diabetes anelu at lefel HbA1c mor isel ag sydd modd, gyda tharged o 48 mmol/mol (6.5% neu'n is) i leihau'r risg hon.

Niferoedd isel o blant a phobl ifanc sy'n ateb y targed hwn yng Nghymru a Lloegr, er bod y niferoedd yn codi bob blwyddyn.


Mae'r adran hon yn edrych ar ganlyniadau HbA1c planta phobl ifanc â diabetes yn 2019-20.

Canlyniadau HbA1c


Y lefel HbA1c cyfartalog (cymedrig) mewn plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yng Nghymru a Lloegr oedd 62 mmol/mol (7.8%) yn 2019-20. Mae hyn yr un fath ag yn 2018-19.

Y lefel HbA1c cyfartalog (cymedrig) mewn plant a phobl ifanc â diabetes Math 2 yng Nghymru a Lloegr oedd 51.0 mmol/mol (6.8%) yn 2019-20. Mae hyn 1.5 mmol/mol yn uwch nag yn 2018-19.

Yn gyffredinol, mae lefelau HbA1c cyfartalog i blant a phobl ifanc â phob math o diabetes yng Nghymru a Lloegr wedi aros yr un fath.



Dangosir isod ganrannau'r plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 a gyrrhaeddodd dargedau HbA1c yng Nghymru a Lloegr yn 2019-20 a 2018-19:



O gymharu â'r flwyddyn archwilio flaenorol, mae canrannau tebyg o blant a phobl ifanc yn cyrraedd y targedau HbA1c is, ac ni chafwyd cynnydd yng nghanrannau'r plant a phobl ifanc sy'n mynd dros y gwerthoedd HbA1c uwch. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn gyson, ond yn dangos gwelliant bychan. Mae'r gwaith caled a wnaed gan deuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wella gofal diabetes i blant a phobl ifanc yn mynd yn ei flaen.



Mae gweithgareddau gwella ansawdd y Rhwydwaith Diabetes Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc a Rhaglen Ansawdd Diabetes Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn cyfrannu at y canlyniadau hyn.

Holwch eich clinig diabetes am eu hymwneud â'r gweithgareddau hyn.

Technolegau'n ymwneud â diabetes

Mae technolegau ar gael i gefnogi rheoli diabetes. Gallant fonitro lefelau cyfredol glwcos gwaed, eich rhybuddio am lefelau uchel/isel, dangos tueddiadau glwcos gwaed dros amser, a/neu helpu i gyflwyno inswlin yn awtomatig. Edrychodd yr NPDA ar dechnolegau'n ymwneud â diabetes a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys:

- Therapi pwmp inswlin – gosod dyfais fach electronig ar y corff, sy'n cyflwyno inswlin yn gyson dan y croen.
- Monitorau glwcos cyson (CGM) – Dyfeisiadau bach sy'n cael eu gwisgo ar eich croen. Maent yn mesur eich lefelau glwcos yn gyson trwy gydol y dydd a'r nos, yn gadael i chi weld tueddiadau yn eich lefelau a gallant eich rhybuddio am lefelau uchel ac isel. Mae'r archwiliad yn casglu data am y defnydd o fonitorau glwcos parhaus mewn amser gwirioneddol (rtCGM) gyda larymau.

Technolegau'n ymwneud â diabetes Ein canfyddiadau

Ym mlwyddyn archwilio 2019-20, yng Nghymru a Lloegr:

- Yr oedd bron i 40% o blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yn defnyddio pwmp inswlin.
- Yr oedd tua thri y cant o blant a phobl ifanc â diabetes Math 2 gyda math o driniaeth a gofnodwyd yn defnyddio pwmp inswlin. Yr oedd y rhan fwyaf yn rheoli eu diabetes gyda diet a meddyginiaeth i ostwng glwcos gwaed.
- Ar sail y data a ddarparwyd, yr oedd tua 19% o blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yn defnyddio rtCGM gyda larymau. Mae hyn yn gynydd o ryw saith y cant ers 2018-19.
- Yr oedd plant iau, y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a rhai o ethnigrwydd gwyn yn fwy tebygol o ddefnyddio therapi pwmp inswlin na grwpiau eraill. Yr oedd yr un peth yn wir am y defnydd o rtCGM.
- Dengys y tabl isod yn gyffredinol, fod plant a phobl ifanc sy'n defnyddio therapi pwmp inswlin yn fwy tebygol o fod yn cyrraedd targedau HbA1c is na'r rhai oedd yn defnyddio chwistrelliadau inswlin:

Canran plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 oedd yn cyrraedd targedau HbA1c fesul dull triniaeth						
	≤48 mmol/mol	≤53 mmol/mol	<58 mmol/mol	≥69 mmol/mol	>75 mmol/mol	>80 mmol/mol
Chwistrelliadau inswlin	10%	19%	31%	38%	25%	19%
Therapi pwmp inswlin	11%	26%	44%	20%	10%	6%

- Yr oedd plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 oedd yn defnyddio rtCGM yn fwy tebygol o fod yn cyrraedd targedau HbA1c is na'r rhai oedd ddim:

Canran plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yn cyrraedd targedau HbA1c yn ôl defnydd o rtCGM						
	≤48 mmol/mol	≤53 mmol/mol	<58 mmol/mol	≥69 mmol/mol	>75 mmol/mol	>80 mmol/mol
Defnyddio rtCGM	16%	34%	53%	14%	7%	4%
Heb fod yn defnyddio rtCGM	9%	19%	32%	34%	22%	16%

Os hoffech wybod mwy am dechnolegau'n ymwneud â diabetes, mynnwch air â'ch tîm diabetes am y dewisiadau sydd ar gael i chi.



Delwedd gan Rosie Smith

Cymhlethdodau diabetes

Mae plant a phobl ifanc a diabetes mewn perygl o gymhlethdodau fydd yn effeithio ar eu pibelli gwaed.

Mae'r NPDA yn edrych ar ganran y plant a'r bobl ifanc â diabetes sydd eisoes wedi dechrau dangos arwyddion o ddatblygu'r problemau hyn.

I leihau'r risg o ddatblygu cymhlethdodau sy'n ymwneud â diabetes, mae'n bwysig anelu am y lefel HbA1c isaf bosib, bwyta diet iach, ac ymarfer yn rheolaidd. Gallwch drafod y pethau hyn gyda'ch clinig.

Diabetes Math 1



Clefyd y llygaid

Canfuwyd arwyddion cynnar o broblemau'r golwg yn y dyfodol a achoswyd gan ddifrod i'r pibelli gwaed yn y llygaid mewn 12% o bobl ifanc (12 oed a hŷn).



Albuminuria (arwydd sy'n rhybuddio am glefydd yr arenau) canfuwyd mewn 11% o bobl ifanc (12 oed a hŷn).



Smygu

Dywedodd nifer fechan (3%) o blant a phobl ifanc y gofynnwyd iddynt eu bod yn smygwyr, sy'n golygu bod ganddynt risg uwch o gymhlethdodau.



Colesterol uchel

Mewn 19% o bobl ifanc (12 oed a hŷn)



Pwysedd gwaed uchel

Mewn 27% o bobl ifanc (12 oed a hŷn).



Dros bwysau (gyda BMI o 25 neu'n uwch)

Yr oedd 36% o blant 0 i 11 oed dros y pwysau a argymhellir; o'r rhai 12 oed a hŷn, yr oedd 43% dros y pwysau a argymhellir.

Diabetes Math 2



Clefyd y llygaid

Canfuwyd arwyddion cynnar o broblemau'r golwg yn y dyfodol a achoswyd gan ddifrod i'r pibelli gwaed yn y llygaid mewn 6.1% o bobl ifanc (12 oed a hŷn).



Albuminuria (arwydd sy'n rhybuddio am glefyd yr arenau)

Canfuwyd mewn 26% o bobl ifanc (12 oed a hŷn)



Smygu

Dywedodd nifer fechan (2%) o blant a phobl ifanc y gofynnwyd iddynt eu bod yn smygwyr.



Colesterol uchel

Canfuwyd mewn 29% o bobl ifanc (12 oed a hŷn)



Pwysedd gwaed uchel

Canfuwyd mewn 44% o bobl ifanc (12 oed a hŷn)



Dros bwysau (gyda BMI o 25 neu'n uwch)

Yr oedd 93% o blant a phobl ifanc dros y pwysau a argymhellir.

Canfyddiadau allweddol

- Blwyddyn archwilio 2019-20 oedd y flwyddyn archwilio gyntaf i deimlo effaith pandemig COVID-19. Er hyn, mae timau diabetes pediatrig wedi parhau i ddangos ymrwymiad i fod yn rhan o NPDA i helpu i gefnogi gwelliannau mewn gofal diabetes i blant a phobl ifanc.
- Dengys yr adroddiad fod gwelliannau wedi eu gwneud flwyddyn ar ôl blwyddyn, o ran deilliannau'n ymwneud â diabetes, a gwiriadau iechyd a argymhellir i'r sawl sydd â diabetes Math 1.
- Dengys canfyddiadau llawn yn y prif adroddiad fod gwaith i'w wneud o hyd i leihau gwahaniaethau mewn deilliannau sy'n ymwneud ag amddifadedd, ethnigrwydd, ac oedran; ac yn y defnydd o dechnolegau sy'n ymwneud â diabetes a all gefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd yr HbAc1 gorau posib.
- Dengys yr adroddiad hefyd fod angen gwneud mwy o waith i godi cyfraddau cwblhau gwiriadau iechyd y sawl sydd â diabetes Math 2.

Dylai rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc â diabetes wneud y canlynol:

- Siarad a'u clinig diabetes am dderbyn y gwiriadau iechyd a argymhellir ar gyfer oedran eu plentyn, a thrafod eu canlyniadau.
- Gweithio gyda'u timau diabetes i gael y lefel HbAc1 gorau posib i'w plentyn, gan anelu am lefelau glwcos gwaed o fewn targedau a osodir gan eu clinigau.
- Dal ati i gymryd rhan mewn arolygon boddhad a phrofiad lleol a chenedlaethol fel yr arolygon Mesur Adrodd am Brofiad Rhieni a Chleifion (PREM) a redir gan yr NPDA, i wneud yn siŵr fod barn yn cael eu cymryd er mwyn gwella'r gwasanaeth.

NPDA

**National Paediatric
Diabetes Audit**

Sut mae'r archwiliad yn cynnal gwelliannau mewn gofal diabetes iblantaphoblifanci

.....

Ym mlwyddyn archwilio 2019-20, mae'r NPDA wedi gwneud y canlynol:

- Helpu clinigau diabetes pediatriig i rannu syniadau a gwersi a ddysgwyd o symud i apwyntiadau clinig wyneb-yn-wyneb i glinigau fideo a theliffon yn ystod pandemig COVID-19, fel y gall clinigau weithio gyda'i gilydd i wella gofal o bell i blant a phobl ifanc â diabetes.
- Creu animeiddiadau fideo arlein o ganlyniadau adroddiad yr NPDA fel y gall teuluoedd gyrchu gwybodaeth o'r archwiliad yn rhwydd.
- Ysgrifennu at arweinwyr clinigol, cyfarwyddwr meddygol a phrif weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lle nad oedd y canlyniadau o glinig cystal â'r lleill, fel bod modd rhoi cefnogaeth, a chymryd camau i wella.
- Cyhoeddi adroddiadau cenedlaethol, rhanbarthol, clinigau Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG, Lloegr yn unig) a Byrddau Iechyd Lleol (BILL, Cymru'n unig) fel bod modd cymharu gofal diabetes ac annog gwelliannau.
- Ennill Clod Uchel yng Ngwobr Goffa Richard Driscoll y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd 2020 sydd yn dathlu rhagoriaeth mewn ymwneud cleifion a'r cyhoedd.




NPDA Results Online

www.npda-results.rcpch.ac.uk

NPDA Results Online yw erfyn adrodd arlein yr NPDA. Mae'r erfyn hwn yn ei gwneud yn haws i rieni a gofalwyr, pobl ifanc a diabetes, a gweithwyr clinigol i gymharu'r gofal a roddir gan eu clinig ag eraill yn y rhanbarth neu'r wlad.

Mae NPDA Results Online yn gadael i chi wneud y canlynol:

- Darllen gwybodaeth gefndir am yr NPDA a chyrchu adroddiadau blynyddol o 2014-15 i 2019-20.
- Gweld a chymharu canlyniadau am fesurau archwilio penoodl yr NPDA megis deilliannau HbA1c, cwblhau sgrinio llygaid a darpariaeth addysg strwythuredig.
- Gweld a llawrlwytho crynodebau o adroddiadau am eich clinig.
- Gweld sut mae eich clinig neu ranbarth yn perfformio yn erbyn eraill.
- Neu gallwch lawrlwytho pdf o ganlyniadau eich clinig lleol o'r dudalen adroddiadau ar wefan yr NPDA: www.rcpch.ac.uk/work-we-do/quality-improvement-patient-safety/national-paediatric-diabetes-audit



Geirfa

Albuminuria

*Gweler Albwmin yn yr wrin

Indecs Mâs y Corff (BMI)

Mesur o faint rhywun ar sail eu pwysau a'u taldra. Fe'i defnyddir i bennu a yw pwysau rhywun yn iach am ei d/thaldra. $BMI = \text{pwysau}/\text{taldra}^2$

Proses gofal

Mae proses gofal yn wiriad iechyd hanfodol y dylid ei gynnal o leiaf unwaith y flwyddyn, e.e., HbA1c neu wiriad taldra a phwysau. Mae rhai gwiriadau iechyd sydd ond yn cychwyn pan fydd eich plentyn yn 12 oed, megis sgrinio'r llygaid. Holwch eich clinig am fwy o fanylion neu ewch i dudalennau 5 a 6.

Colesterol

Sylwedd brasterog sy'n hanfodol i'r corff weithio'n normal. Gall lefelau eithafol o uchel o golesterol gael effaith andwyol ar yr iechyd.

Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG)

Mae Grwpiau Comisiynu Clinigol yn gyrff y GIG sy'n cael eu harwain gan weithwyr clinigol ac sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd i'w hardal leol yn Lloegr.

Clefyd coeliag

Clefyd awtoimiwn (sy'n golygu bod y system imiwnedd trwy gangymeriad yn ymosod ar feinwe iach yn y corff) a achosir gan adwaith y perfedd i glwten.

Monitor glwcos parhaus (CGM) / monitor glwcos parhaus amser gwirioneddol (rtCGM)

Dyfais fechan y byddwch yn ei gwisgo o dan eich croen. Mae'n mesur eich lefelau glwcos yn barhaus trwy gydol y dydd a'r nos, gan adael i chi weld tueddiadau yn eich lefelau ac yn eich rhybuddio am lefelau uchel ac isel.

Cetoacidosis diabetig (DKA)

Cyflwr difrifol a all ddigwydd mewn pobl â diabetes, sy'n arwydd o ddiffyg inswlin dwys. Gall hyn ddigwydd os na roddir inswlin pan fydd ei angen neu yn ystod episodau o fathau eraill o sawlch. *Gweler Cetonau.

Glwcos

Siwgr gwaed sy'n ffynhonnell bwysig o ynni i'r corff.

Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HOIP)

Sefydliad annibynnol i hyrwyddo ansawdd mewn gofal iechyd, i gynyddu'r effaith gaiff archwilio clinigol ar wella ansawdd gofal iechyd.

Cetonau

Sylwedd cemegol yw ceton a gynhyrchir gan y corff pan nad oes ganddo ddigon o inswlin yn y gwaed. Mae dod o dorri braster i lawr.

Gwiriadau iechyd allweddol

Gwahanol fesurau yw'r rhain y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu cymryd fel rhan o ofalu am y sawl sydd â diabetes.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI)

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Hwyr sy'n gyfrifol am gynllunio, cyllido a chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardal leol.

NICE

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) yn rhoi canllawiau a chynngor cenedlaethol ar wella iechyd a gofal cymdeithasol.

Pwmp (Pwmp inswlin)

Dyfais electronig fechan sy'n rhoi i'ch corff yr inswlin rheolaidd mae arno ei angen trwy gydol y dydd a'r nos.

Rhaglen addysg strwythuredig

Rhaglen o addysg am hunan-reoli, wedi ei theilwrio i anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'i d/theulu, adeg y diagnosis cyntaf ac ymlaen yn gyson trwy gydol yr amser y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu'r clinig diabetes. Rhaglen yw hon a gynigir yn ychwanegol at yr addysg sy'n cael ei roi fel mater o drefn mewn cyfarfodydd ymgynghori â chleifion allanol.

Clefyd y thyroid

Clefyd sy'n achosi i chwarren y thyroid yn y gwddf gynhyrchu naill ai ormod neu ddim digon o hormon.

Albwmin yn yr wrin

Prawf i wirio wrin am bresenoldeb protin o'r enw albwmyn Gall albwmyn ollwng i'r wrin pan ddifrodir yr aren – albuminuria yw'r enw ar hyn.

Prosesu teg

I ddysgu mwy am yr NPDA, cymharu canlyniadau clinigau, darllen yr hysbysiad preifatrwydd a deall sut mae data eich plentyn yn cael ei ddefnyddio i sbarduno gwelliannau cenedlaethol mewn gofal diabetes, ewch at www.rcpch.ac.uk/npda

Delweddau

Mae pob delwedd yn yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion darlunio yn unig. Model yw unrhyw unigolyn a ddarlunir yn y cynnwys, heb unrhyw gysylltiad â'r RCPCH, nac unrhyw agwedd o ofal iechyd corfforol.

Cafodd darluniau yn yr adroddiad hwn eu dylunio gan blant neu bobl ifanc â diabetes, sy'n mynychu clinig yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae eu dyluniadau yn gyflwyniadau i gystadleuaeth celf 2020 yr NPDA oedd yn gofyn i blant a phobl ifanc ddylunio delwedd seiliedig ar naill ai 'ymweliad da â chlinig diabetes' neu 'fyw'n iach gyda diabetes'.



Delwedd gan Falaq Haseeb

Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol (NPDA) Adroddiad Rhieni a Gofalwyr 2019-20

Cyhoeddwyd gan y RCPCH Mai 2021



Caiiff yr Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol ei gomisiynu a'i noddi gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Archwilio Clinigol.

Telir am y rhaglen gan NHS England a Llywodraeth Cymru



Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

5-11 Theobalds Road,
Llundain, WC1X 8SH

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC038299). ©RCPCH 2021